*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 29(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

# 2026 Rhif (Cy. )

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

# Rheoliadau Targedau Ansawdd Aer (Deunydd Gronynnol Mân) (Cymru) 2026

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys yng Nghymru, yn gosod—

—targed ar gyfer crynodiad cymedrig blynyddol $PM_{2.5}$ (deunydd gronynnol mân) mewn aer amgylchynol yng Nghymru o dan adran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 (dsc 2) ("y targed crynodiad cymedrig blynyddol"), a

—targed i leihau cysylltiad y boblogaeth â $PM_{2.5}$ (deunydd gronynnol mân) mewn aer amgylchynol yng Nghymru o dan adran 2 o'r Ddeddf honno ("y targed lleihau cysylltiad y boblogaeth").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gosod y targedau sydd i'w cyflawni a'r dyddiad erbyn pa bryd y maent i'w cyflawni.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â'r targed crynodiad cymedrig blynyddol. Mae rheoliad 4 yn gosod y targed i sicrhau bod crynodiad cymedrig blynyddol $PM_{2.5}$ mewn aer amgylchynol yng Nghymru yn hafal i 10 microgram fesul metr ciwbig neu lai erbyn 31 Rhagfyr 2035. Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae hyn i'w fesur.

Mae Rhan 3 yn ymwneud â'r targed lleihau cysylltiad y boblogaeth. Mae rheoliad 7 yn gosod y targed i sicrhau bod gostyngiad o 25% o leiaf yng nghysylltiad y boblogaeth â $PM_{2.5}$ mewn aer amgylchynol yng Nghymru erbyn 31 Rhagfyr 2035 o'i gymharu â chyfnod gwaelodlin o 1 Ionawr 2017 i 31 Rhagfyr

2019. Mae rheoliad 8 yn gwneud darpariaeth ynghylch sut y mae hyn i'w fesur. Mae Atodlen 1 yn nodi'r cyfrifiadau y mae Gweinidogion Cymru i'w cynnal at ddibenion penderfynu pa un a yw'r targed wedi ei gyflawni ac i fesur y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r targed.

Mae rheoliadau 6 a 9 yn gosod y dyddiad adrodd ar gyfer pob targed, fel sy'n ofynnol gan adran 5(1) o Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024.

Mae Rhan 4 ac Atodlen 2 yn cynnwys darpariaethau ynghylch monitro ac asesu, sy'n gymwys i'r ddau darged.

Mae Rhan 5 ac Atodlen 3 yn nodi rhwymedigaethau Gweinidogion Cymru mewn perthynas â chyhoeddi gwybodaeth.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 29(3) o Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  
C Y M R U  D R A F F T

# 2026 Rhif (Cy. )

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

## Rheoliadau Targedau Ansawdd Aer (Deunydd Gronynnol Mân) (Cymru) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *** |
| *Yn dod i rym* | *** |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 2, 5(1), 29(1) a 29(4) o Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024(**1**) ("Deddf 2024").

Yn unol ag adran 3(1) o Ddeddf 2024, mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn am gyngor gan bersonau y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn annibynnol ac yn meddu ar arbenigedd perthnasol ac mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i wybodaeth wyddonol ynghylch llygredd aer.

Yn unol ag adran 3(2) o Ddeddf 2024, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i'r canllawiau diweddaraf mewn perthynas â $PM_{2.5}$ a gyhoeddwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd.

Yn unol ag adran 3(3) o Ddeddf 2024, mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y gellir cyflawni'r targedau yn y Rheoliadau hyn.

(**1**) 2024 dsc 2 .

Yn unol ag adran 3(11) o Ddeddf 2024, mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gosod o fewn 3 blynedd i'r dyddiad y cafodd Ddeddf 2024 y Cydsyniad Brenhinol.

Yn unol ag adran 29(3) o Ddeddf 2024, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

# RHAN 1

## Cyflwyniad

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Targedau Ansawdd Aer (Deunydd Gronynnol Mân) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar [XXX] 2026.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "aer amgylchynol" ("*ambient air*") yw aer y tu allan yn y troposffer, ac eithrio'r aer mewn gweithleoedd nad oes gan aelodau o'r cyhoedd fynediad rheolaidd iddynt;

ystyr "blwyddyn" ("*year*") yw blwyddyn galendr;

ystyr "Deddf 2024" ("*the 2024 Act*") yw Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024;

mae i "gofyniad cipio data blynyddol sylfaenol" ("*minimum annual data capture requirement*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 14;

mae "gorsaf fonitro" ("*monitoring station*") i'w ddehongli yn unol â rheoliad 12(4);

ystyr "gorsaf fonitro RhSAA" ("*AQSR monitoring station*") yw gorsaf fonitro a ddefnyddir i fesur lefelau $PM_{2.5}$ at ddibenion Rheoliadau 2010;

ystyr "mesuriad sefydlog" ("*fixed measurement*") yw mesuriad a gymerir mewn lleoliad sefydlog, yn barhaus neu drwy samplu ar ysbeidiau rheolaidd i ganfod lefelau $PM_{2.5}$;

ystyr "parth" ("*zone*") yw un o'r parthau neu grynoadau y mae Cymru wedi ei rhannu ynddynt at ddibenion monitro ansawdd aer, fel y'i pennir o dan reoliad 4 o Reoliadau 2010;

ystyr "Rheoliadau 2010" ("*the 2010 Regulations*") yw Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010(**1**);

(**1**) 2010 Rhif:1433 (Cy. 126).

mae i "wedi eu cadarnhau" ("*ratified*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 14(5).

(2) At ddibenion y Rheoliadau hyn—

(a) ystyr "deunydd gronynnol" yw deunydd gronynnol sydd â diamedr aerodynamig nad yw'n fwy na 2.5 o ficrometrau;

(b) ystyr cyfeiriad at "lefel" $PM_{2.5}$ yw crynodiad màs $PM_{2.5}$ a fesurir mewn microgramau fesul metr ciwbig (µg/m³).

**Targedau ansawdd aer**

**3.**—(1) Mae rheoliad 4 yn pennu targed ar gyfer y lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$ mewn aer amgylchynol yng Nghymru ("y targed crynodiad cymedrig blynyddol") at ddibenion dyletswydd Gweinidogion Cymru yn adran 2 o Ddeddf 2024.

(2) Mae rheoliad 7 yn pennu targed pellach ar gyfer lleihau cysylltiad y boblogaeth â $PM_{2.5}$ mewn aer amgylchynol yng Nghymru ("y targed lleihau cysylltiad y boblogaeth") at ddibenion dyletswydd Gweinidogion Cymru yn adran 2 o Ddeddf 2024.

# RHAN 2

## Targed Crynodiad Cymedrig Blynyddol ar gyfer $PM_{2.5}$

**Targed crynodiad cymedrig blynyddol**

**4.** Y targed crynodiad cymedrig blynyddol yw bod rhaid i'r lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$ mewn aer amgylchynol yng Nghymru fod yn hafal i 10 µg/m³ neu lai erbyn 31 Rhagfyr 2035.

**Mesur**

**5.**—(1) Mae'r targed crynodiad cymedrig blynyddol wedi ei gyflawni erbyn 31 Rhagfyr 2035 os, ym mhob gorsaf fonitro berthnasol, yw'r lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$ mewn aer amgylchynol yng Nghymru, a gyfrifir yn unol â rheoliad 15, yn hafal i, neu'n llai nag, y lefel darged o'i dalgrynnu i'r nifer cyfan agosaf o µg/m³.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "gorsaf fonitro berthnasol" yw gorsaf fonitro y cymerir mesuriadau sefydlog o $PM_{2.5}$ ohoni—

(a) drwy gydol y flwyddyn 2035, gan ddiystyru unrhyw gyfnodau yn ystod y flwyddyn honno pan na fo'r orsaf fonitro yn gweithredu, er enghraifft ar gyfer gwaith atgyweirio neu gynnal a chadw, a

(b) sy'n bodloni'r gofyniad cipio data blynyddol yn y flwyddyn honno.

### Dyddiad adrodd

**6.** At ddibenion adran 5(1) o Ddeddf 2024, y dyddiad adrodd ar gyfer y targed crynodiad cymedrig blynyddol yw 15 Gorffennaf 2036.

# RHAN 3

## Targed lleihau cysylltiad y boblogaeth

### Targed

**7.** Y targed lleihau cysylltiad y boblogaeth yw bod gostyngiad o 25% o leiaf o ran cysylltiad y boblogaeth erbyn diwedd 31 Rhagfyr 2035 ("y dyddiad targed"), o'i gymharu â chysylltiad cyfartalog y boblogaeth yn y cyfnod o dair blynedd o 1 Ionawr 2017 i 31 Rhagfyr 2019 ("y cyfnod gwaelodlin"), a bennir yn unol â rheoliad 8.

### Mesur

**8.**—(1) Mae'r newid canrannol o ran cysylltiad y boblogaeth rhwng y cyfnod gwaelodlin a'r dyddiad targed i'w fesur drwy—

(a) canfod, ar gyfer pob blwyddyn rhwng 2019 a 2035, y swm (mewn $\mu g/m^3$) y mae Dangosydd Cysylltiad y Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn honno yn fwy neu'n llai na'r Dangosydd Cyfeirio ar gyfer y flwyddyn honno,

(b) canfod swm y newidiadau blynyddol o ran cysylltiad y boblogaeth rhwng y cyfnod gwaelodlin a'r dyddiad targed, drwy adio y symiau a ganfyddir o dan is-baragraff (a) ar gyfer pob blwyddyn o 2019 i 2035, ac

(c) mynegi swm y newidiadau blynyddol o ran cysylltiad y boblogaeth, fel y'i cynrychiolir gan y swm a ganfyddir o dan is-baragraff (b), fel canran o Ddangosydd Cysylltiad y Boblogaeth ar gyfer y cyfnod gwaelodlin, wedi ei dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

(2) Mae Atodlen 1 yn nodi'r cyfrifiadau y mae Gweinidogion Cymru i'w cynnal i wneud y canfodiadau ym mharagraff (1) ac i fesur y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r targed lleihau cysylltiad y boblogaeth.

### Dyddiad adrodd

**9.** At ddibenion adran 5(1) o Ddeddf 2024, y dyddiad adrodd ar gyfer y targed lleihau cysylltiad y boblogaeth yw 15 Gorffennaf 2036.

**Dehongli'r Rhan hon**

**10.** Yn y Rhan hon ac yn Atodlen 1—

mae i "y cyfnod gwaelodlin" ("*the baseline period*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 7;

ystyr "cysylltiad y boblogaeth" ("*population exposure*") yw cysylltiad y boblogaeth â $PM_{2.5}$;

ystyr "Dangosydd Cysylltiad y Boblogaeth" ("*the Population Exposure Indicator*")—

(a) ar gyfer y cyfnod gwaelodlin yw mesuriad o gysylltiad cyfartalog y boblogaeth yn y cyfnod hwnnw;

(b) ar gyfer blwyddyn o 2019 ymlaen yw mesuriad o gysylltiad cyfartalog y boblogaeth yn y cyfnod o dair blynedd sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr yn y flwyddyn flaenorol, a gyfrifir yn unol ag Atodlen 1 ac nad yw i'w ddefnyddio ond at ddibenion gwneud y canfodiad sy'n ofynnol gan reoliad 8(1)(a) a'r cyfrifiadau sy'n ofynnol gan baragraffau 1(d) a 2(c) o Atodlen 1.

# RHAN 4

## Monitro ac asesu

**Cwmpas y Rhan hon**

**11.** Mae'r Rhan hon yn gymwys i'r gwaith o fonitro ac asesu lefelau $PM_{2.5}$ a gynhelir at ddibenion y targed crynodiad cymedrig blynyddol a'r targed lleihau cysylltiad y boblogaeth.

**Gorsafoedd monitro**

**12.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod y gofynion yn Atodlen 2 (sy'n ymwneud â lleoliad a nifer y gorsafoedd monitro a gosodiad yr offer monitro) yn cael eu bodloni.

(2) Yn ddarostyngedig i unrhyw benderfyniad o dan baragraff (3)(b), mae pob gorsaf fonitro RhSAA a oedd yn weithredol yn union cyn i'r rheoliad hwn ddod i rym yn orsaf fonitro at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(3) — Caiff Gweinidogion Cymru o bryd i'w gilydd—

(a) sefydlu gorsafoedd monitro newydd i fesur lefelau $PM_{2.5}$ at ddibenion y Rheoliadau hyn, neu

(b) penderfynu bod gorsaf fonitro i beidio â chael ei defnyddio at ddibenion y Rheoliadau hyn, ar yr amod bod y gofynion ym mharagraff 3 o Atodlen 2 (isafswm nifer y gorsafoedd monitro) yn parhau i gael eu bodloni.

(4) Mae cyfeiriadau at orsafoedd monitro yn y Rheoliadau hyn yn gyfeiriadau at orsafoedd monitro ar gyfer mesur lefelau $PM_{2.5}$ y mae paragraff (2) yn gymwys iddynt neu a sefydlir gan Weinidogion Cymru o dan baragraff (3)(a) ac eithrio pan wneir darpariaeth benodol ynglŷn ag ystyr "gorsaf fonitro" mewn perthynas ag adeg cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym (gweler rheoliad 14(5) a'r diffiniad o "gorsaf fonitro gefndir" ym mharagraff 5 o Atodlen 1).

**Asesu**

**13.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau bod lefelau $PM_{2.5}$ ym mhob gorsaf fonitro yn cael eu hasesu fel a ganlyn.

(2) Rhaid cymryd mesuriadau sefydlog o $PM_{2.5}$ naill ai yn barhaus neu bob awr neu ar ysbeidiau rheolaidd eraill nad ydynt yn llai aml nag unwaith y diwrnod—

(a) yn unol â'r dull a ddisgrifir yn [BS EN 12341:2023] ("y dull cyfeirio"), neu

(b) drwy ddull arall sy'n cyfateb i'r dull cyfeirio ("dull cyfatebol").

(3) At ddibenion paragraff (2)(b), mae dull o asesu lefelau $PM_{2.5}$ yn ddull cyfatebol os yw'n rhoi canlyniadau sydd—

(a) yn cyfateb i'r canlyniadau a fyddai'n cael eu rhoi gan y dull cyfeirio, neu

(b) fel arall yn dwyn perthynas gyson â'r canlyniadau a fyddai'n cael eu rhoi gan y dull cyfeirio, gan ddiystyru unrhyw newid i'r berthynas honno o ganlyniad i newidiadau yng nghyfansoddiad $PM_{2.5}$ mewn aer amgylchynol yng Nghymru dros amser.

(4) Os asesir lefelau $PM_{2.5}$ drwy ddull y mae paragraff 3(b) yn gymwys iddo, rhaid addasu'r canlyniadau i gynhyrchu canlyniadau sy'n cyfateb i'r canlyniadau a fyddai wedi cael eu rhoi gan y dull cyfeirio.

(5) Os asesir lefelau $PM_{2.5}$ heblaw yn unol â pharagraff 2(a), rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'n barhaus a yw'r dull hwnnw'n bodloni'r gofynion ym mharagraff (3).

(6) Yn y rheoliad hwn ystyr "BS EN 12341:2023" yw'r Safon Brydeinig a rifwyd felly ac sy'n dwyn yr enw 'Ambient Air – standard gravimetric measurement method for the determination of $PM_{10}$ or $PM_{2.5}$ mass concentration of suspended particulate matter'(**1**).

(**1**) [Placeholder for accessing BS EN 12341:2023 TBC].

**Mesur, cadarnhau data a’r gofyniad cipio data blynyddol sylfaenol**

**14.**—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae lefelau $PM_{2.5}$ i’w mesur mewn µg/m³ i un lle degol o leiaf.

(2) Rhaid gwirio’r data a geir o fesuriadau sefydlog o $PM_{2.5}$ yn annibynnol, ac ni chaniateir eu defnyddio at ddibenion unrhyw gyfrifiadau os canfyddir eu bod yn debygol o fod yn anghywir.

(3) Ni chaniateir defnyddio’r data a geir o fesuriadau sefydlog o $PM_{2.5}$ mewn gorsaf fonitro mewn blwyddyn ond pan fo’r orsaf fonitro yn bodloni’r gofyniad cipio data blynyddol sylfaenol yn y flwyddyn honno.

(4) Y gofyniad cipio data blynyddol sylfaenol ar gyfer gorsaf fonitro yw bod mesuriadau sefydlog o lefelau $PM_{2.5}$ yn cael eu cymryd, a bod y data o’r mesuriadau hynny wedi eu cadarnhau, am o leiaf 85% o’r oriau mewn blwyddyn, neu os cymerir mesuriadau ar ysbeidiau cyfnodol yn llai aml na phob awr, am o leiaf 85% o’r cyfnodau hynny mewn blwyddyn.

(5) Yn y rheoliad hwn—

mae “gorsaf fonitro” (“*monitoring station*”) mewn perthynas ag unrhyw adeg cyn i’r Rheoliadau hyn ddod i rym yn cynnwys unrhyw orsaf fonitro RhSAA a oedd yn weithredol ar yr adeg honno;

ystyr “wedi eu cadarnhau” (“*ratified*”) yw bod data wedi eu gwirio yn unol â pharagraff (2) ac nad ydynt wedi eu heithrio rhag cael eu defnyddio mewn cyfrifiadau.

**Cyfrifo’r lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$ mewn gorsaf fonitro**

**15.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau, cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn, fod y lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$ yn cael ei chyfrifo ar gyfer pob gorsaf fonitro.

(2) Os mesurir lefelau $PM_{2.5}$ ar ysbeidiau cyfnodol, mae’r lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$ mewn gorsaf fonitro i’w chyfrifo fel cymedr yr holl fesuriadau cyfnodol sydd wedi eu cadarnhau a gymerwyd mewn blwyddyn.

**Cyfraniadau o ffynonellau naturiol**

**16.**—(1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried nad yw targed wedi ei gyflawni am reswm y gellir ei briodoli i gyfraniadau o ffynonellau naturiol, caiff Gweinidogion Cymru asesu a thynnu’r cyfraniadau o ffynonellau naturiol wrth asesu a yw targed wedi ei gyflawni.

(2) Pan fo Gweinidogion Cymru yn penderfynu nad yw targed wedi ei gyflawni am reswm y gellir ei briodoli i gyfraniadau o ffynonellau naturiol yn unol â

pharagraff (1), rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi gwybodaeth sy'n dangos bod y methiant i gyflawni'r targed i'w briodoli i ffynonellau naturiol.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cyfraniadau o ffynonellau naturiol" yw allyriadau llygryddion nad ydynt yn cael eu hachosi'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan weithgareddau dynol, gan gynnwys digwyddiadau naturiol megis echdoriadau llosgfynyddoedd, gweithgarwch seismig, gweithgarwch geothermol, tanau tir gwyllt, gwyntoedd cryfion, distrych y don neu ailddal neu gludo gronynnau naturiol o ranbarthau sych yn yr atmosffer.

# RHAN 5

## Darpariaethau atodol

**Gwybodaeth**

**17.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r wybodaeth a nodir yn Atodlen 3.

(2) Rhaid i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi o fewn adeg resymol ar ôl bod—

(a) gwybodaeth ar gael i Weinidogion Cymru, a

(b) Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y data a nodir ym mharagraffau 8 i 11 o Atodlen 3 yn gywir.

*Enw*
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

# ATODLEN 1 Rheoliad 8(2)

## Cyfrifiadau'r targed lleihau cysylltiad y boblogaeth

**Cyfrifiadau cychwynnol**

**1.** Mae'r canlynol i'w cyfrifo erbyn 15 Gorffennaf 2027—

(a) Dangosydd Cysylltiad y Boblogaeth ar gyfer y cyfnod gwaelodlin ("DCBgwaelodlin");

(b) Dangosydd Cysylltiad y Boblogaeth ar gyfer pob un o'r blynyddoedd 2020, 2021, 2022, 2023, 2024, 2025, a 2026;

(c) y Dangosydd Cyfeirio ar gyfer pob un o'r blynyddoedd 2020, 2021, 2022, 2023, 2024, 2025, a 2026;

(d) Δ ar gyfer pob un o’r blynyddoedd 2020, 2021, 2022, 2023, 2024, 2025 a 2026, pan fo ystyr Δ am flwyddyn yw’r swm y mae Dangosydd Cysylltiad y Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn honno yn fwy neu’n llai na’r Dangosydd Cyfeirio ar gyfer y flwyddyn honno.

**Cyfrifiadau blynyddol**

**2.** Mae’r canlynol i’w cyfrifo ar gyfer pob blwyddyn o 2027 ymlaen (“blwyddyn n”), erbyn 15 Gorffennaf yn y flwyddyn ganlynol—

(a) Dangosydd Cysylltiad y Boblogaeth ar gyfer blwyddyn n;

(b) y Dangosydd Cyfeirio ar gyfer blwyddyn n;

(c) Δ ar gyfer blwyddyn n;

(d) swm Δ ar gyfer pob un o’r blynyddoedd sy’n dechrau â 2020 hyd at a chan gynnwys blwyddyn n (“swmΔ”);

(e) cyfanswm cronnus y newidiadau blynyddol i Ddangosydd Cysylltiad y Boblogaeth o’r cyfnod gwaelodlin hyd at a chan gynnwys blwyddyn n, wedi ei fynegi fel canran o DCBgwaelodlin fel y’i canfyddir gan y cyfrifiad—

$$\frac{\Delta swm}{DCBgwaelodlin} \times 100$$

**Cyfrifo DCBgwaelodlin, Dangosydd Cysylltiad y Boblogaeth a Dangosydd Cyfeirio**

**3.**—(1) Mae DCBgwaelodlin i’w gyfrifo drwy gyflawni’r camau a ganlyn—

—cam 1: cyfrifo cymedr y lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$ yn 2017 ar gyfer pob gorsaf fonitro waelodlin a oedd yn weithredol drwy gydol y flwyddyn honno ac a fodlonodd y gofyniad cipio data blynyddol sylfaenol yn y flwyddyn honno;

—cam 2: ailadrodd cam 1 ar gyfer y blynyddoedd 2018 a 2019;

—cam 3: cyfrifo cymedr y gwerthoedd a gyfrifir o dan gamau 1 a 2 ar gyfer y blynyddoedd 2017, 2018 a 2019 i gael DCBgwaelodlin.

(2) Mae Dangosydd Cysylltiad y Boblogaeth ar gyfer blwyddyn (“DCBblwyddyn”) i’w gyfrifo drwy gyflawni’r camau a ganlyn—

—cam 1: cyfrifo cymedr y lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$ yn y flwyddyn honno ar gyfer pob gorsaf fonitro DCB, ac eithrio unrhyw orsaf fonitro nad oedd wedi bodloni’r gofyniad cipio data blynyddol sylfaenol yn y flwyddyn honno;

—cam 2: ailadrodd cam 1 ar gyfer pob un o'r ddwy flynedd flaenorol;

—cam 3: cyfrifo cymedr y gwerthoedd a gyfrifir o dan gamau 1 a 2 i gael DCBblwyddyn.

(3) Mae'r Dangosydd Cyfeirio ar gyfer blwyddyn ("DCblwyddyn") i'w gyfrifo drwy gyflawni'r camau a ganlyn—

—cam 1: cyfrifo cymedr y lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$ yn y flwyddyn flaenorol ar gyfer pob gorsaf fonitro DCB, ac eithrio unrhyw orsaf fonitro DCB nad oedd wedi bodloni'r gofyniad cipio data blynyddol sylfaenol yn y flwyddyn honno;

—cam 2: ailadrodd cam 1 ar gyfer pob un o'r ddwy flynedd flaenorol;

—cam 3: cyfrifo cymedr y gwerthoedd a gyfrifir o dan gamau 1 a 2 ar gyfer y tair blynedd hynny i gael DCblwyddyn.

**Cyfrifo a thalgrynnu**

**4.**—(1) Mae'r cyfrifiadau yn yr Atodlen hon i'w gwneud drwy ddefnyddio lefelau $PM_{2.5}$ mewn $\mu g/m^3$ i un lle degol o leiaf.

(2) Mae unrhyw swm neu werth sydd i'w gyfrifo o dan yr Atodlen hon i'w gyfrifo i ddau le degol o leiaf, ac os caiff ei ddefnyddio ar gyfer unrhyw gyfrifiad dilynol o dan yr Atodlen hon, y swm neu'r gwerth heb ei dalgrynnu sydd i'w ddefnyddio.

(3) At ddibenion cyhoeddi o dan baragraffau 9 i 11 o Atodlen 3 (gwybodaeth y mae'n ofynnol ei chyhoeddi)—

(a) mae DCBgwaelodlin a DCBblwyddyn i'w mynegi i ddau le degol;

(b) mae'r ganran a gyfrifir o dan baragraff 2(e) i'w thalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf.

**Dehongli Atodlen 1**

**5.**—(1) Yn yr Atodlen hon—

mae i "DCBgwaelodlin" ("*PEIbase*") yr ystyr a roddir ym mharagraff 1(a);

ystyr "gorsaf fonitro DCB" ("*PEImonitoring station*"), mewn perthynas â mesur Dangosydd Cysylltiad y Boblogaeth neu'r Dangosydd Cyfeirio ar gyfer blwyddyn, yw gorsaf fonitro sydd—

(a) yn weithredol neu a oedd yn weithredol drwy gydol y flwyddyn honno a'r tair blynedd flaenorol, a

(b) yn bodloni'r gofyniad cipio data blynyddol sylfaenol mewn o leiaf dair o'r pedair blynedd hynny.

ystyr "gorsaf fonitro gefndir" ("*background monitoring station*") yw gorsaf fonitro sydd ar

safle cefndir trefol neu safle cefndir maestrefol, o fewn yr ystyron a roddir ym mharagraff 1 o Atodlen 2, ac at y diben hwn mae "gorsaf fonitro" mewn perthynas ag unrhyw adeg cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym yn cynnwys unrhyw orsaf fonitro RhSAA a oedd yn weithredol ar yr adeg honno;

ystyr "gorsaf fonitro waelodlin" ("*baseline monitoring station*") yw gorsaf fonitro cefndir a oedd, yn un neu ragor o'r blynyddoedd 2017, 2018 a 2019—

(c) yn weithredol drwy gydol y flwyddyn honno, a

(d) yn bodloni'r gofyniad cipio data blynyddol sylfaenol yn y flwyddyn honno;

mae i "Δ" yr ystyr a roddir ym mharagraff 1(d).

# ATODLEN 2 Rheoliad 12

## Gorsafoedd monitro

**Disgrifiadau safle: dehongli**

**1.** Yn yr Atodlen hon, mae i'r disgrifiadau a ganlyn o safle gorsafoedd monitro yr ystyron a ganlyn—

ystyr "cefndir maestrefol" ("*suburban background*") yw safle—

(a) mewn ardal rannol adeiledig sy'n gymysg ag ardaloedd nad ydynt yn drefol, a

(b) lle nad oes ffynhonnell neu ffynonellau llygredd yn agos at y safle yn dylanwadu'n sylweddol ar y lefel $PM_{2.5}$, ac felly y mae'n gynrychioliadol o'r lefel gefndir o $PM_{2.5}$ y mae'r boblogaeth yn debygol o ddod i gysylltiad â hi ar draws ardal ehangach nag yng nghyffiniau agos y safle;

ystyr "cefndir trefol" ("*urban background*") yw safle—

(a) mewn ardal sy'n adeiledig yn barhaus neu'n bennaf sy'n gymysg ag ardaloedd nad ydynt yn drefol ac eithrio parciau trefol, a

(b) lle nad oes ffynhonnell neu ffynonellau llygredd yn agos at y safle yn dylanwadu'n sylweddol ar y lefel $PM_{2.5}$, ac felly y mae'n gynrychioliadol o'r lefel gefndir o $PM_{2.5}$ y mae'r boblogaeth yn debygol o ddod i gysylltiad â hi ar draws ardal ehangach nag yng nghyffiniau agos y safle;

ystyr "ger ffynhonnell" ("*near source*") yw safle mewn lleoliad lle y mae'r lefel $PM_{2.5}$ yn debygol o fod yn uwch na'r lefel gefndir oherwydd dylanwad un neu ragor o ffynonellau llygredd yn agos at y

safle, megis allyriadau o draffig o brif ffordd neu o ffynonellau diwydiannol cyfagos.

**Lleoliad gorsafoedd monitro**

**2.**—(1) Rhaid i bob gorsaf fonitro fod wedi ei lleoli ar safle—

(a) y mae gan y cyhoedd neu ran o'r cyhoedd fynediad iddo ac y maent yn debygol o'i fynychu;

(b) nad yw o fewn ffin ffatri neu fangre ddiwydiannol arall;

(c) nad yw ar gerbytffordd ffordd, neu ar lain ganol ffordd, nad oes mynediad i gerddwyr iddi fel arfer.

(2) Yn ddarostyngedig i gydymffurfio ag is-baragraff (1), a'r gofynion ym mharagraffau 4 a 5, caniateir lleoli gorsaf fonitro ar safle o unrhyw ddisgrifiad (ac nid dim ond ar safle fel y disgrifir ym mharagraff 1).

**Isafswm niferoedd y gorsafoedd monitro**

**3.**—(1) Hyd at 31 Rhagfyr 2032—

(a) ni chaiff cyfanswm nifer y gorsafoedd monitro ym mhob parth fod yn llai na nifer y gorsafoedd monitro RhSAA yn y parth hwnnw yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym;

(b) rhaid i un orsaf fonitro o leiaf ym mhob parth fod ar safle cefndir trefol neu safle cefndir maestrefol.

(2) O 1 Ionawr 2033 ni chaiff—

(a) cyfanswm nifer y gorsafoedd monitro ym mhob parth, a

(b) nifer y gorsafoedd monitro hynny sydd—

(i) ar safleoedd cefndir trefol neu safleoedd cefndir maestrefol;

(ii) ar safleoedd ger ffynhonnell,

fod yn llai na'r isafswm niferoedd a bennir yn y tabl a ganlyn.

| *Poblogaeth y parth (miloedd)* | *Cyfanswm nifer isaf y gorsafoedd monitro* | *Isafswm nifer y gorsafoedd monitro ar safleoedd cefndir trefol neu faestrefol* | *Isafswm nifer y gorsafoedd monitro ar safleoedd ger ffynhonnell* |
|---|---|---|---|
| ≥ 6,000 | 15 | 10 | 5 |
| 4,750 – | 11 | 7 | 4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 5,999 | | | |
| 3,750 – 4,749 | 10 | 6 | 4 |
| 2,750- 3,749 | 9 | 6 | 3 |
| 1,000 – 2,749 | 6 | 4 | 2 |
| 250 – 999 | 3 | 2 | 1 |
| ≤ 250 | 2 | 1 | 1 |

**Meini prawf rhoi ar safle**

**4.**—(1) Rhaid i orsafoedd monitro gael eu rhoi ar safle yn unol â'r meini prawf yn is-baragraffau (2) i (4).

(2) Rhaid i orsafoedd monitro gael eu rhoi ar safle er mwyn osgoi mesur lefelau $PM_{2.5}$ mewn micro-amgylcheddau bach iawn yn eu cyffiniau agos.

(3) Rhaid i orsafoedd monitro ar safleoedd ger ffynhonnell, fel grŵp, gynnwys gorsafoedd sydd wedi eu rhoi ar safle i ddarparu data sy'n gynrychioliadol o leoliadau lle y mae'r crynodiadau $PM_{2.5}$ uchaf yn debygol o ddigwydd y mae'r boblogaeth yn dod i gysylltiad â hwy am gyfnodau sylweddol.

(4) Mewn perthynas â gorsafoedd monitro sydd ar safleoedd ger ffynhonnell lle mai allyriadau traffig o ffordd yw'r brif ffynhonnell llygredd gerllaw—

(a) ni chânt fod mwy na 10 metr o ymyl y ffordd,

(b) ni chânt fod llai na 25 o fetrau o ymyl unrhyw gyffordd sy'n tarfu ar lif y traffig ac yn achosi lefelau allyriadau $PM_{2.5}$ cerbydol sy'n wahanol i weddill y ffordd, ac

(c) rhaid iddynt fod yn gynrychioliadol o lefelau $PM_{2.5}$ ar ddarn o'r ffordd nad yw'n llai na 100 metr.

**Gosodiad yr offer monitro**

**5.** Rhaid gosod offer ar gyfer mesur lefelau mewn gorsafoedd monitro yn unol â'r meini prawf a ganlyn—

(a) rhaid i'r llif aer o amgylch y fewnfa samplu fod yn anghyfyngedig (yn rhydd mewn arc o 180° o leiaf os yw'r offer wedi ei osod yn sownd ar adeilad neu'n gyfagos i adeilad neu 270° fel arall);

(b) ni chaiff y fewnfa samplu—

(i) bod llai na 0.5 metr o'r adeilad agosaf, y goeden agosaf neu'r rhwystr arall agosaf, a

(ii) bod wedi ei gosod yng nghyffiniau agos ffynhonnell allyriadau $PM_{2.5}$ ;

(c) ni chaiff uchder chwiliedydd y fewnfa samplu fod llai nag 1.5 metr na mwy nag 8 metr uwchben y ddaear;

(d) rhaid gosod allfa wacáu'r samplwr er mwyn osgoi ailgylchredeg aer a wacawyd i fewnfa'r samplwr.

# ATODLEN 3 Rheoliad 17

## Cyhoeddi gwybodaeth

**Gorsafoedd monitro: gwybodaeth gyffredinol**

**1.** Mewn perthynas â phob gorsaf fonitro—

(a) ei pharth a'i lleoliad;

(b) y dyddiad y dechreuwyd ei defnyddio gyntaf ar gyfer monitro lefelau $PM_{2.5}$;

(c) y disgrifiad o'r safle (fel y'i rhestrir ym mharagraff 1 o Atodlen 2), os oes un, lle y mae wedi ei lleoli;

(d) pa un a ddefnyddir lefelau $PM_{2.5}$ a fesurir yn yr orsaf fonitro at ddibenion—

(i) y targed crynodiad cymedrig blynyddol a'r targed lleihau cysylltiad y boblogaeth, neu

(ii) y targed crynodiad cymedrig blynyddol yn unig.

**Gorsafoedd monitro: manylion lleoliad**

**2.** Mewn perthynas â phob gorsaf fonitro—

(a) map o'i lleoliad a ffotograffau o'r ardal o'i hamgylch;

(b) union leoliad y fewnfa samplu gan gynnwys ei huchder uwchben y ddaear.

**3.** Mewn perthynas â phob gorsaf fonitro ar safle ger ffynhonnell—

(a) disgrifiad o'r brif ffynhonnell allyriadau gyfagos;

(b) pellter yr orsaf fonitro o'r ffynhonnell honno.

**Gorsafoedd monitro: effeithiau dros dro neu barhaol**

**4.** Mewn perthynas â phob gorsaf fonitro, disgrifiad o unrhyw ddylanwadau lleol (megis gwaith adeiladu neu waith ffordd) sydd wedi arwain at newid dros dro neu barhaol o ran i ba raddau y mae lefelau $PM_{2.5}$ a

fesurir ar y safle yn gynrychioliadol o lefelau $PM_{2.5}$ yn yr ardal o'i hamgylch.

**Dulliau asesu a rheoli ansawdd**

**5.** Mewn perthynas â phob gorsaf fonitro, disgrifiad naratif o'r dull a ddefnyddir i gymryd mesuriadau sefydlog o lefelau $PM_{2.5}$.

**6.** Esboniad o sut y mae unrhyw ddulliau cyfatebol a ddefnyddir yn cyfateb i'r dull cyfeirio.

**7.** Disgrifiad o unrhyw systemau sicrhau ansawdd a rheoli ansawdd a ddefnyddir i sicrhau cywirdeb parhaus dyfeisiau mesur a'r data a geir ohonynt.

**Data**

**8.** Mewn perthynas â phob gorsaf fonitro—

(a) ar gyfer pob cyfnod y cymerwyd ac y cadarnhawyd mesuriad sefydlog o $PM_{2.5}$ ynddo, y gwerth mesuredig, neu gymedr y gwerthoedd mesuredig os y cymerwyd ac y cadarnhawyd mwy nag un mesuriad;

(b) y gyfradd cipio data flynyddol;

(c) y lefel gymedrig flynyddol o $PM_{2.5}$ ym mhob blwyddyn.

**9.** DCBgwaelodlin (hynny yw, Dangosydd Cysylltiad y Boblogaeth, fel y'i diffinnir yn rheoliad 10, ar gyfer y cyfnod gwaelodlin fel y'i diffinnir yn rheoliad 7).

**10.** Dangosydd Cysylltiad y Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf y'i cyfrifwyd ar ei chyfer.

**11.** Canlyniad y cyfrifiad ym mharagraff 2(e) o Atodlen 1 (hynny yw, canran DCBgwaelodlin sy'n cynrychioli swm cronnol y newidiadau blynyddol i Ddangosydd Cysylltiad y Boblogaeth ers y cyfnod gwaelodlin), ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf y'i cyfrifwyd ar ei chyfer.